

Mae Cyngor Sir Ceredigion ("y Cyngor") drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 32, 35 a Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984") ac o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984 drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

1. Cychwyn ac Enwi

Ceir enwi'r Gorchymyn hwn fel Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd) 2025 a fydd yn dod i rym ar y 07/05/2025.

2. Dehongliad

- (a) Heb niweidio dilysrwydd dim oll a wnaethpwyd nac unrhyw atebolrwydd a achoswyd parthed unrhyw weithred neu hepgoriad a oedd yn bod cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, bydd:

Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd)
(Cydgrynhoi) 2012;
Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd)
(Cydgrynhoi) 2012 (Gorchymyn Diwygiedig 1) 2014; a
Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd)
(Cydgrynhoi) 2012 (Gorchymyn Diwygiedig 2) 2017.

yn cael eu dirymu ar y dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

- (b) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl rifedig yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn ac mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at:

- i) 'Atodlen 1' yn gyfeiriad at Atodlen 1 y Gorchymyn hwn
- ii) 'Atodlen 2' yn gyfeiriad at Atodlen 2 y Gorchymyn hwn
- iii) 'Atodlen 3' yn gyfeiriad at Atodlen 3 y Gorchymyn hwn
- iv) 'Atodlen 4' yn gyfeiriad at Atodlen 4 y Gorchymyn hwn

- (c) Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae gan yr ymadroddion canlynol yr ystyron a neilltuwyd iddynt trwy hyn yn y drefn honno:-

Mae "Carafanét" yn golygu Cerbyd sydd wedi'i adeiladu neu wedi'i addasu ar gyfer cysgu;

Mae "Tystysgrif Codi Tâl" yn golygu'r datganiad sy'n nodi bod y Tâl Cosb wedi'i gynyddu 50 y cant yn unol â Rheoliad 13 o Reoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Hysbysiadau Taliadau Cosb, Gorfodi a Dyfarnu) (Cymru) 2008;

Mae "Diwrnodau Codi Tâl" yn golygu'r cyfnod a nodir yng Ngholofn 4 Atodlen 1 sydd ynghlwm y mae tâl wedi ei bennu ar ei gyfer yn Erthygl 4;

Mae "Oriau Codi Tâl" yn golygu'r cyfnod a nodir yng Ngholofn 5 Atodlen 1 sydd ynghlwm y mae tâl wedi ei bennu ar ei gyfer yn Erthygl 4;

Mae "Swyddog Gorfodi Sifil" yn golygu unrhyw swyddog o'r Cyngor neu rywun a awdurdodir gan y Cyngor i oruchwyllo a rheoli Cerbydau yn y Mannau Parcio a gorfodi darpariaethau'r Gorchymyn hwn;

Mae "y Cyngor" yn golygu Cyngor Sir Ceredigion;

Mae "Cilfach Barcio i'r Anabl" yn golygu Man Parcio a ddarperir ar gyfer gadael Cerbyd a yrrir gan unigolyn sy'n gymwys i ddefnyddio "Bathodyn Person Anabl" neu a ddefnyddir ar adeg parcio'r Cerbyd i gludo unigolyn sy'n gymwys i ddefnyddio "Bathodyn Person Anabl";

Mae i "Fathodyn Person Anabl" yr un ystyr â'r hyn a geir yn Rheoliadau Pobl Anabl (Bathodynnau Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 ac unrhyw newidiadau iddynt neu ailddeddfiadau ohonynt;

Mae "Gyrrwr" parthed y Cerbyd sy'n aros yn y Lle Parcio'n golygu'r unigolyn a oedd yn gyrru'r Cerbyd pan adawyd ef yn y Lle Parcio;

Mae "Cerbyd Trydan" yn golygu Cerbyd sy'n cael ei bweru'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan drydan ac y gellir ei wefru o ffynhonnell allanol;

Mae "Man Gwefru Cerbydau Trydan" yn golygu uned bwrpasol a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer gwefru Cerbydau Trydan;

Mae "Amser Dod i Ben" yn golygu'r amser a nodir ar y Tocyn neu'r Sesiwn Parcio erbyn pryd y mae'n rhaid i'r Cerbyd adael y Lle Parcio;

Mae "Cerbydau Trwm" yn golygu unrhyw Gerbyd dros 3.5t pwysau gros cerbyd ac mae'n cynnwys Coetsis a Bysiau;

Mae i "Gerbyd Pobl Anabl" yr un ystyr â'r hyn a geir yn Adran 136(5) Deddf 1984;

Mae i "Gar Modur" yr un ystyr â'r hyn a geir yn Adran 136(2) Deddf 1984;

Mae i "Feic Modur" yr un ystyr â'r hyn a geir yn Adran 136(4) Deddf 1984;

Mae "Perchennog" Cerbyd yn golygu'r sawl sy'n cadw ac yn defnyddio'r Cerbyd. Tybir mai'r Perchennog yw'r sawl, ar y Dyddiad Perthnasol, yr oedd y Cerbyd wedi ei gofrestru yn ei enw o dan Ddeddf Trethu a Chofrestru Cerbydau 1994;

Mae "Cilfach Barcio" yn golygu unrhyw ran o'r Lle Parcio a ddarperir ar gyfer gadael Cerbyd ac a nodir â marciau ar wyneb y Lle Parcio;

Mae i "Ddisg Parcio" yr un ystyr â'r hyn a geir yn Rheoliad 8(5) Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000;

Mae “Trwydded Parcio” a “Thocyn Tymor” yn golygu trwydded o unrhyw fath a dyluniad, a roddir gan y Cyngor am y cyfnod y bydd y Cyngor yn ei bennu o bryd i’w gilydd ar ôl talu’r tâl priodol fel yr amlinellir yn Atodlen 1 ac Atodlen 3, ar gyfer Cerbyd o ddosbarth penodol ac ar gyfer Man(nau) Parcio penodol ac yn amodol ar delerau ac amodau a bennir gan y Cyngor o bryd i’w gilydd;

Mae “Lle Parcio” neu “Faes Parcio” yn golygu unrhyw ddarn o dir a enwir yn benodol yng Ngholofn 1 Atodlen 1 a ddarperir gan y Cyngor o dan Adran 32(1) Deddf 1984 i’w ddefnyddio fel Lle Parcio;

Mae “Sesiwn Parcio” yn golygu cyfnod o amser y talwyd am barcio gan ddefnyddio Gwasanaeth Talu drwy’r Ffôn;

Mae “Peiriant Tocynnau Parcio” yn golygu’r cyfarpar a ddarperir gan y Cyngor yn y Man Parcio, ar gyfer rhoi Tocynnau sy’n nodi’r taliad, y dyddiad a’r amser y talwyd y tâl, a’r Amser Daw i Ben;

Mae “Tocyn Talu ac Arddangos” neu “Tocyn” yn golygu tocyn a roddir gan Beiriant Tocynnau Parcio sydd wedi’i leoli yn y Lle Parcio y mae’r Cerbyd wedi’i adael ynddo, neu a roddir gan berson a enwebwyd gan y Cyngor ar ôl talu Tâl Parcio, ac sy’n ddilys dim ond ar gyfer y Cerbyd y’i prynwyd ar ei gyfer, ar gyfer y Man Parcio y’i prynwyd ynddo a hyd at yr Amser Daw i Ben a ddangosir;

Mae “Gwasanaeth Talu drwy’r Ffôn” neu “Talu drwy’r Ffôn” yn golygu system di-arian-parod o dalu am neu brynu Sesiwn Barcio drwy ddefnyddio ffôn, rhyngwyd, neu ddulliau electronig eraill a ddarperir gan y Cyngor;

Mae “Tâl Cosb” yn golygu tâl a bennir yn unol â darpariaethau Adran 77 ac atodlen 9 Deddf 2004 a Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2013;

Mae “Hysbysiad Tâl Cosb” neu “Rhybydd Tâl Cosb” yn golygu Hysbysiad Tâl Cosb a roddir neu a gyflwynir gan Swyddog Gorfodi Sifil neu a bostir gan y Cyngor neu ar ei ran yn unol â darpariaethau Adran 78 Deddf 2004 a Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Hysbysiadau Taliadau Cosb, Gorfodi a Dyfarnu) (Cymru) 2008;

Mae “Deiliad Trwydded yn Unig” yn golygu Lle Parcio at ddefnydd deiliaid Trwydded Parcio dynodedig yn unig;

Mae “Ceidwad Cofrestredig” yn golygu’r sawl y cofrestrwyd y Cerbyd yn ei enw ar y Dyddiad Perthnasol o dan Ddeddf Trethu a Chofrestru Cerbydau 1994;

Mae “Dyddiad Perthnasol” yn golygu’r dyddiad y mae neu yr oedd unrhyw Gerbyd wedi parcio yn y Lle Parcio y cyfeirir ato yn y Gorchymyn hwn neu’r dyddiad pan ddigwyddo neu y digwyddodd rhywbeth yn groes i unrhyw un o ddarpariaethau’r Gorchymyn hwn neu y mae’r Gorchymyn hwn yn ymwneud ag ef;

Mae “Man Perthnasol” yn golygu yn achos Cerbyd wedi’i ffitio â ffenestr flaen, safle ynddo gyda’r ochr flaen yn wynebu ymlaen ac yn ddarllenadwy’n glir ar ochr agos y ffenestr flaen ac yn union y tu ôl iddi neu, yn achos Cerbyd heb ffenestr flaen wedi’i

ffitio, mewn daliwr priodol fel ei fod yn ddarllenadwy'n glir ac mewn man amlwg ar y Cerbyd;

Mae "Trelar" yn golygu trelar yn unol â'r ystyr a geir yn Adran 136(1) Deddf 1984 ac mae'n cynnwys Carafán;

Mae "Cerbyd" yn golygu cerbyd a yrrir yn fecanyddol a fwriedir neu a addaswyd i'w ddefnyddio ar ffyrdd i gludo pobl neu nwyddau a, heb ragfarn i gyffredinolrwydd yr uchod bydd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, unrhyw Gar Modur, Beic Modur, Carafanét, Bws, Coets, Cerbyd Trwm neu unrhyw beth sy'n gysylltiedig â, yn rhan o'r Cerbyd neu'n cael ei gludo arno a bydd hefyd yn golygu unrhyw Garafán, Trelar, Cwch neu Drelar Cwch p'un a yw wedi'i gysylltu â Cherbyd arall ai peidio;

Mae "Ymwelydd" yn golygu aelod o'r cyhoedd sy'n ymweld â'r adeilad. Nid yw hyn yn cynnwys gweithwyr Cyngor Sir Ceredigion p'un a yw canolfan eu gwaith yn y lleoliad neu leoliad arall.

- (d) Dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd gan unrhyw ddeddfiad dilynol.
- (e) Bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i'r modd y dehonglir y Gorchymyn hwn fel bo'n briodol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol a bernir bod pob cyfeiriad at statud (boed yn statud neilltuo neu'n gyffredinol) yn cynnwys cyfeiriadau at statudau'r dyfodol a fydd mewn grym gan ddisodli neu ategu'r statudau hynny ac unrhyw reoliadau, cyfarwyddiadau neu ganiatadau a wneir neu a roddir oddi tanynt a'r holl ddarpariaethau ac amodau sydd ynddynt.

3. Defnyddio Lle Parcio

- (a) Caniateir defnyddio Llefydd Parcio a bennir wrth eu henw yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac y dangosir eu maint yn y mapiau a gynhwysir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn, fel Man Parcio ar gyfer y cyfryw ddosbarthiadau o Gerbydau, yn y cyfryw safle, ar y diwrnodau ac yn ystod yr oriau a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.
- (b) Lle disgrifir Lle Parcio yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn fel Lle Parcio sydd ar gael ar gyfer Cerbydau o ddosbarth penodedig neu ar ddiwrnodau penodedig neu yn ystod oriau penodedig ni fydd y Gyrrwr yn caniatáu i'r Cerbyd aros yn y Lle Parcio hwnnw:-
 - i) Oni bai ei fod o ddosbarth penodedig neu drwy drefniant ymlaen llaw;
 - ii) Ar ddiwrnodau neu yn ystod oriau ar wahân i'r rheini a bennir;
 - iii) Os oes Cilfachau Parcio wedi eu marcio, mewn unrhyw safle y tu allan i farciau'r cilfachau a ddynodir â llinellau ar arwyneb y gilfach, gwahanol liwiau elfennau'r pafin, pyst atal neu ddulliau eraill sy'n nodi Cilfach Parcio;
 - iv) Mewn safle a fyddai'n rhwystro mynediad i'r Lle Parcio, yn rhwystro'r ffyrdd mynediad o fewn y Lle Parcio neu'n rhwystro eraill rhag defnyddio'r Lle Parcio gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, barcio ar ymylon, llwybrau troed a marciau llinelllog o fewn y Lle Parcio.

(c) Ni chaniateir i neb beri i Gerbyd aros mewn Cilfach Barcio os oes arwyddion neu farciau ar ei hwyneb sy'n nodi ei bod ar gael ar gyfer rhywun anabl onid oes Bathodyn Person Anabl i'w weld yn ffenestr flaen y Cerbyd hwnnw yn y Man Perthnasol ac ar yr amod bod naill ai'r Gyrrwr neu deithiwr yn y Cerbyd hwnnw'n ddeiliad Bathodyn Person Anabl.

(d) Ni chaiff neb ganiatáu Cerbyd i aros mewn Lle Parcio neu Gilfach Barcio wedi ei harwyddo, neu wedi ei marcio ar ei hwyneb, fel:

- i) ar gael ar gyfer Cerbydau o ddisgrifiad penodol,
- ii) ar gael i Ddeiliaid Trwydded yn Unig,
- iii) Cilfach Barcio wedi'i chadw

oni bai bod y Cerbyd o ddisgrifiad o'r fath neu fod ganddo Drwydded Parcio ddilys neu wedi cael Cilfach Barcio neilltuedig.

(e) Ni waeth pa gyfnod y talwyd amdano, yn unol ag Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn, rhaid i Gerbyd Trydan:

- i) ddim ond defnyddio Cilfachau Parcio sydd wedi'u dynodi ar gyfer Cilfachau Gwefru Cerbydau Trydan tra bod y Cerbyd Trydan yn cael ei wefru drwy Fan Gwefru Cerbydau Trydan.
- ii) peidio â pharcio am fwy na'r uchafswm amser a ganiateir ar gyfer parcio yn y Gilfach Gwefru Cerbydau Trydan fel yr arwyddwyd yn y Lle Parcio.
- iii) peidio â dychwelyd i Gilfach Gwefru Cerbydau Trydan o fewn yr un Lle Parcio o fewn 3 awr i adael y Gilfach Gwefru Cerbydau Trydan.

(f) Ni chaiff neb ganiatáu i Gerbyd aros mewn Lle Parcio yn ystod Oriau Codi Tâl heb dalu'r cyfryw dâl neu daliadau a nodir yn Erthyglau 4(a) neu 5(a) y Gorchymyn hwn.

(g) Ni chaiff neb ganiatáu i Gerbyd aros mewn Lle Parcio yn ystod Oriau Codi Tâl am gyfnod sy'n fwy na'r cyfnod hwyaf a nodir yng Ngholofn 6 Atodlen 1 sydd ynghlwm, a phan fydd Cerbyd wedi gadael y Lle Parcio hwnnw ar ôl iddo fod yn aros ynddo, ni chaiff neb o fewn awr ar ôl gadael y Cerbyd ganiatáu iddo aros eto yn y Lle Parcio hwnnw yn ystod Oriau Codi Tâl ar y diwrnod hwnnw.

(h) Bydd Gyrrwr Cerbyd sy'n defnyddio Lle Parcio yn stopio'r injan cyn gynted ag y bydd y Cerbyd yn ei le yn y Lle Parcio ac ni chaiff gychwyn yr injan ac eithrio pan fydd ar fin newid lleoliad y Cerbyd er mwyn gadael y Lle Parcio.

(i) Ni ddylai neb hysbysebu fod Cerbyd ar werth na defnyddio Cerbyd tra ei fod mewn Lle Parcio ar gyfer gwerthu dim byd i neb nac yn agos at y Lle Parcio chwaith nac ar gyfer gwerthu neu gynnig hurio ei ddoniau na'i wasanaethau heblaw am y rhai hynny sydd wedi eu hawdurdodi'n briodol yn ysgrifenedig gan y Cyngor.

4. Taliadau am ddefnyddio Lle Parcio

(a) Ac eithrio lle caiff ei eithrio gan Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn, bydd Gyrrwr Cerbyd, wrth ei adael mewn Lle Parcio, yn talu tâl fesul awr neu bob dydd (oni bai bod Trwydded Parcio ddilys yn cael ei harddangos yn y Man Perthnasol) sy'n berthnasol i'r

Lle Parcio yn unol â'r raddfa ffioedd a nodir yn Atodlen 1 ac Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

- (b) Rhaid talu'r tâl yn syth ar ôl parcio'r Cerbyd yn y Lle Parcio dywededig a rhaid iddo fod mewn cysylltiad â'r cyfnod (heb fod yn gyfnod sy'n fwy na'r cyfnod hiraf ar gyfer aros yn y Lle Parcio hwnnw) pan fwriedir i'r Cerbyd gael ei barcio yn y Lle Parcio hwnnw.
- (c) Bydd y tâl y cyfeirir ato yn Erthygl 4(a) yn daladwy naill ai drwy gael Tocyn o Beiriant Tocynnau Parcio a leolir yn y Lle Parcio lle y'i darperir, neu, os hysbysebir ei fod ar gael yn y Lle Parcio, trwy brynu Sesiwn Parcio trwy Wasanaeth Talu trwy'r Ffôn.
- (d) Bydd unrhyw Docyn a roddir ar ôl talu'r tâl yn unol ag Erthygl 4(a) mewn Peiriant Tocynnau Parcio (neu fel arall y mae'n ofynnol ei arddangos dan unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn) yn cael ei roi mewn man amlwg ar y Cerbyd y'i rhoddwyd ar ei gyfer a bydd yn cael ei arddangos felly drwy gydol y cyfnod y bydd y Cerbyd yn y Lle Parcio. At ddibenion yr Erthygl hon mae "man amlwg" yn golygu:
 - i) yn achos Cerbyd sydd â ffenestr flaen, man y tu mewn i'r ffenestr flaen honno neu ar y dangosfwrdd neu'r wynebfwrdd, gydag ochr flaen y Tocyn i fyny ac yn gwbl ddarllenadwy o'r tu allan ac i ochr dde'r Cerbyd neu'r Gyrrwr.
 - ii) yn achos Cerbyd heb ffenestr flaen wedi'i ffitio, mewn daliwr priodol fel bod y Tocyn yn ddarllenadwy'n glir mewn man amlwg ar y Cerbyd.
- (e) Lle mae parcio Cerbyd mewn unrhyw Fan Parcio wedi'i awdurdodi trwy dalu'r tâl yn unol ag Erthygl 4(a) ni chaiff y cyfryw Gerbyd ei adael yn y Lle Parcio y tu hwnt i Amser Daw'r Tocyn neu'r Sesiwn Parcio i Ben.
- (f) Bydd unrhyw Docyn neu Sesiwn Parcio a brynwyd i dalu'r tâl yn unol ag Erthygl 4(a) yn ddilys yn unig ar gyfer y Lle Parcio y prynwyd ef ar ei gyfer ac ar gyfer y Cerbyd y'i prynwyd ar ei gyfer, ac nid yw'n drosglwyddadwy i unrhyw Le Parcio neu Gerbyd arall.
- (g) Bydd unrhyw Docyn neu Sesiwn Parcio a brynir ond yn ddilys ar y diwrnod y'i rhoddir ac eithrio pan fo'r Tocyn neu Sesiwn Parcio yn nodi bod yr amser a brynir yn ymestyn i gyfnod codi tâl y diwrnod canlynol.
- (h) Bydd Gyrrwr Cerbyd sy'n cael ei adael mewn Lle Parcio yn ystod yr Oriau Codi Tâl, yn talu'r taliadau hynny yn unol â maint y taliadau a nodir yn Atodlen 1 ac Atodlen 2 o'r Gorchymyn hwn ar gyfer y Lle Parcio hwnnw ar gyfer pob Cilfach Barcio a/neu ran o Gilfach Barcio a feddiannir. Codir tâl am Gilfach Barcio a feddiannir yn rhannol gan Gerbyd y Gyrrwr fel pe bai wedi'i meddiannu'n gyfan gwbl.
- (i) Pan fydd Tocyn(nau) wedi'i arddangos ar Gerbyd yn unol ag Erthygl 4(d), ni chaiff neb, nad yw'n Yrrwr y Cerbyd, dynnu'r Tocyn(nau) o'r Cerbyd oni bai bod y Gyrrwr yn awdurdodi hynny.
- (j) Os bydd Cerbyd yn cael ei adael mewn Lle Parcio ar unrhyw adeg heb ddim Tocyn na Thrwydded Parcio dilys wedi'i arddangos neu os nad oes cofnod o Sesiwn Parcio ddilys, ystyrir nad yw'r tâl wedi'i dalu.
- (k) Os ar unrhyw adeg pan fo Cerbyd yn cael ei adael yn ystod yr Oriau Codi Tâl mewn Lle Parcio, a bod y Peiriant Tocynnau Parcio agosaf yn y Lle Parcio hwnnw ddim yn

gweithio, rhaid cael Tocyn o Beiriant Tocynnau Parcio arall o fewn y Lle Parcio (lle y'i darperir) neu, os hysbysebir ei fod ar gael yn y Lle Parcio, trwy brynu Sesiwn Parcio trwy Wasanaeth Talu trwy'r Ffôn.

- (l) Os, ar unrhyw adeg pan fo Cerbyd yn cael ei adael yn ystod yr Oriau Codi Tâl, nid yw Gwasanaeth Talu trwy'r Ffôn yn gweithio, rhaid cael Tocyn o Beiriant Tocynnau Parcio yn y Lle Parcio.
- (m) Lle nad oes Peiriant Tocynnau Parcio na Gwasanaeth Talu trwy'r Ffôn ar waith mewn Lle Parcio, bydd y tâl y cyfeirir ato yn Erthygl 4(a) yn daladwy ar gais i Swyddog Gorfodi Sifil neu unrhyw berson arall a awdurdodir gan y Cyngor.
- (n) Mewn Llefydd Parcio lle mae Mannau Gwefru Cerbydau Trydan sy'n golygu taliad i ddarparwr y Man Gwefru Cerbydau Trydan, bydd y Tâl Parcio yn unol ag Erthygl 4(a) neu 5(a) o'r Gorchymyn hwn yn daladwy yn ychwanegol at y taliad a wneir i ddarparwr y Man Gwefru Cerbyd Trydan.
- (o) Yn ddarostyngedig i Ddeddf 1984 mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid graddfa'r ffioedd yn Atodlen 1 Colofn 7 i 8, yn Atodlen 2 ac yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn heb Orchymyn pellach.
- (p) O dan Ddeddf 1984 mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid yr hyn sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1 Colofn 1 hyd 6 y Gorchymyn hwn heb Orchymyn pellach.

5. Trwyddedau Parcio

- (a) Gall Perchennog Cerbyd, drwy wneud cais i'r Cyngor, brynu Trwydded Parcio am dâl priodol fel y nodir yn Atodlen 1 a 3 y Gorchymyn hwn ar gyfer Cerbyd o ddosbarth penodol ac ar gyfer Lle Parcio neu Lefydd Parcio penodol a dan yr amodau y mae'r Cyngor wedi'u pennu.
- (b) Bydd y Gyrrwr yn cadw at y telerau y mae'r Cyngor wedi'u pennu ar gyfer defnyddio'r Drwydded Parcio.
- (c) Ni fydd Trwydded Parcio ond yn ddilys yn y Lle Parcio neu'r Parcio y rhoddwyd ef ar ei gyfer neu ar eu cyfer, a hynny hyd at y dyddiad terfyn a ddangosir ar y Drwydded Parcio.
- (d) Bydd y Drwydded Parcio'n dal yn eiddo i'r Cyngor a bydd yn rhaid ei hildio ar gais. Mewn achosion lle bydd yn briodol ad-dalu'r tâl, gwneir hynny'n unol a pholisïau'r Cyngor.
- (e) Bydd Gyrrwr y Cerbyd yn arddangos y Drwydded Parcio yn y Man Perthnasol ar y Cerbyd y'i rhoddwyd ar ei gyfer ar bob adeg y gadewir y Cerbyd yn y Lle Parcio.
- (f) Os caiff Trwydded Parcio ei difrodi neu'i cholli bydd y Cyngor yn darparu un newydd ar gais, ac ar ôl cael tâl gweinyddu. Yna daw'r Drwydded Parcio sydd wedi'i difrodi neu'i cholli yn annilys ar unwaith.
- (g) Ni fydd gan ddeiliad Trwydded Parcio sy'n ildio'r Drwydded Parcio yn wirfoddol hawl i ad-daliad.

6. Tramgwyddau a Hysbysiadau Taliadau Cosb

- (a) Os bydd unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn yn cael ei dorri mewn unrhyw ffordd, yna bydd Tâl Cosb yn daladwy, am bob diwrnod calendr o'r tramgwydd hwnnw, i'r Cyngor o dan y darpariaethau a nodir isod ac yn ddarostyngedig iddynt.
- (b) Yn achos Cerbyd y gallasai Tâl Cosb fod yn daladwy ar ei gyfer, bydd Swyddog Gorfodi Sifil a fydd wedi'i awdurdodi gan y Cyngor yn gyfrifol am roi Hysbysiad Tâl Cosb ar y Cerbyd mewn man amlwg, neu ei roi i Yrrwr y Cerbyd dan sylw.
- (c) Yn achos Cerbyd y gallai Tâl Cosb fod wedi'i godi mewn perthynas ag ef, ceir rhoi Hysbysiad Tâl Cosb drwy'r post gan neu ar ran y Cyngor os yw Perchennog neu Yrrwr y Cerbyd yn gyrru'r Cerbyd i ffordd cyn i'r Swyddog Gorfodi Sifil roi Hysbysiad Tâl Cosb neu fod y Swyddog Gorfodi Sifil wedi'i atal rhag rhoi Hysbysiad Tâl Cosb. Ystyrir bod unrhyw Hysbysiad Tâl Cosb a gyflwynir drwy'r post wedi'i gyflwyno ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod postio.
- (d) Telir y Tâl Cosb i'r Cyngor drwy'r modd a nodir ar yr Hysbysiad Tâl Cosb heb fod yn hwyrach na diwrnod olaf y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad.
- (e) Os bydd y Cyngor yn cael y taliad dan sylw heb fod yn ddiweddarach na diwrnod olaf y cyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg sy'n dechrau ar y dyddiad y cyflwynir y rhybudd, gostyngir swm y taliad 50%.
- (f) Cynyddir y Tâl Cosb 50% pan gyflwynir Tystysgrif Codi Tâl.
- (g) Ni fydd talu'r Tâl Cosb (p'un ai a ostyngir y tâl hwnnw o dan ddarpariaethau paragraff 6(e)) yn rhyddhau neb rhag talu unrhyw dreuliau y gellir eu hadennill sy'n ymwneud â symud y Cerbyd a'i waredu'n unol â darpariaethau Erthygl 10 y Gorchymyn hwn ac unrhyw ddarpariaethau statudol a fydd mewn grym am y tro, nac o unrhyw hawliad y gallai'r Cyngor ei wneud am iawndal parthed difrod a achosir sy'n ymwneud â pharcio'r Cerbyd, sut bynnag y digwyddo hynny.
- (h) Ni ddylid tynnu ymaith Hysbysiad Tâl Cosb sydd wedi ei osod ar Gerbyd yn unol ag Erthygl 6(b) ac ni ddylid ymyrryd ag ef mewn unrhyw fodd heb awdurdod:
 - i) Perchennog y Cerbyd neu'r sawl sydd â gofal amdano.
 - ii) Unrhyw berson a awdurdodir gan y Cyngor.

7. Esemptiadau

- (a) Bydd y Cerbydau canlynol a adewir yn y Lle Parcio yn cael eu heithrio rhag talu unrhyw dâl sy'n berthnasol i Lefydd Parcio Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir a nodir yn Atodlen 1 ac Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn:
 - i) Cerbyd yn arddangos Bathodyn Person Anabl dilys.
 - ii) Cerbyd Pobl Anabl.

YN UNOL Â HYNFY ni fydd y cyfryw eithriad yn berthnasol oni chydymffurfir â'r amodau canlynol:

- iii) bod y Cerbyd ar adeg ei barcio naill ai'n cael ei yrru neu ei feddiannu fel teithiwr gan ddeiliad Bathodyn Person Anabl, a
 - iv) mae'n rhaid arddangos Bathodyn Person Anabl yn y Man Perthnasol.
- (b) Bydd Cerbydau Cyngor Lfreioig ac unrhyw Gerbyd arall a awdurdodir yn benodol gan y Cyngor, a ddefnyddir yn unol â dyletswyddau'r Cyngor, wedi'u heithrio rhag terfynau amser, talu taliadau a chyfyngiadau dosbarth.
- (c) Ni fydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i unrhyw Gerbyd a ddefnyddir at ddibenion y frigâd dân, ambiwlans na'r heddlu mewn argyfwng.

8. Cau a Neilltuo Llefydd Parcio

- (a) Er gwaethaf darpariaethau'r Gorchymyn hwn caiff y Cyngor, o roi hysbysiad naill ai yn y Lle Parcio neu'n agos ato, gau'r Lle Parcio neu unrhyw ran ohono am unrhyw gyfnod ac ni chaiff Gyrrwr unrhyw Gerbyd ddefnyddio'r Lle Parcio nac unrhyw ran ohono pan fydd ar gau heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor.
- (b) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn i rwystro'r Cyngor, o roi hysbysiad yn y Lle Parcio, rhag neilltuo at ddefnydd arbennig neu at ddefnydd Cerbydau neu unigolion a awdurdodir yn arbennig, ran neu rannau o'r Lle Parcio bob dydd neu ar ddyddiau penodol neu yn ystod rhannau penodol o ddyddiau neilltuo.
- (c) Ni ddylai Gyrrwr Cerbyd, oni chafwyd caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor ac yn unol â thelerau'r caniatâd hwnnw, beri i'w Gerbyd na chaniatáu iddo:-
- i) aros yn y Lle Parcio neu unrhyw ran ohono ar unrhyw adeg pan fo'r Lle Parcio neu'r rhan honno (fel bo'r achos) sydd ar gau o dan Erthygl 8(a) y Gorchymyn hwn;
 - ii) aros mewn unrhyw ran o'r Lle Parcio ar unrhyw adeg pan fo'r rhan honno wedi ei neilltuo at ddefnydd arbennig Cerbydau neu unigolion a awdurdodir yn arbennig o dan Erthygl 8(b) y Gorchymyn hwn, onid yw'r Cerbyd neu'r unigolyn wedi ei awdurdodi.

9. Darpariaethau eraill

- (a) Ni chaiff neb, ac eithrio gyda chaniatâd unrhyw berson a awdurdodwyd yn briodol gan y Cyngor, yrru unrhyw Gerbyd mewn Lle Parcio ac eithrio at ddiben gadael y Cerbyd hwnnw yn y Lle Parcio yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn neu at ddiben gadael y Lle Parcio, ac mae unrhyw berson sy'n gwneud hynny yn agored i gael ei erlyn.
- (b) Ni ddylai neb mewn Lle Parcio weiddi'n ddireswm na gwneud sŵn uchel mewn rhyw fodd arall a tharfu ar ddefnyddwyr y Lle Parcio neu drigolion tai'r gymdogaeth neu aflonyddu arnynt a phetai rhywun yn gwneud hynny gellid ei erlyn.
- (c) Ni ddylai neb mewn Lle Parcio ddefnyddio iaith, arwyddion nac ymddygiad bygythiol, difriol na sarhaus gyda'r bwriad o godi ofn ar neb a tharfu ar yr heddwch a chan ei

gwneud yn debygol y terfir ar yr heddwch a phetai rhywun yn gwneud hynny gellid ei erlyn.

(d) Ni ddylai neb ddefnyddio unrhyw ran o Le Parcio nac unrhyw Gerbyd a adewir mewn Lle Parcio:-

- i) i gysgu na gwersylla;
- ii) i fwyta na choginio heblaw onid yw wedi ei awdurdodi'n briodol yn ysgrifenedig gan y Cyngor;
- iii) at ddibenion gwasanaethu neu olchi unrhyw Gerbyd nac unrhyw ran ohono heblaw am yr hyn sy'n rhesymol angenrheidiol i'r Cerbyd hwnnw fedru mynd o'r Lle Parcio;
- iv) ar gyfer codi neu beri codi pabell, bwth, stondin, adeilad neu adeiledd arall heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor; neu
- v) ar gyfer cynnau tân na chaniatáu i neb gynnu tân;

a phetai rhywun yn gwneud hynny gellid ei erlyn.

(e) Ni ddylai neb ddefnyddio Lle Parcio i fynd o'r naill ffordd i'r llall a phetai rhywun yn gwneud hynny gellid ei erlyn.

(f) Ni ddylai neb, oni chafodd ganiatâd gan rywun a awdurdodwyd gan y Cyngor, yrru Cerbyd na chaniatáu i neb yrru Cerbyd yn y Lle Parcio onid yw hynny at y diben o adael y Cerbyd hwnnw yn y Lle Parcio'n unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn neu at y diben o ymadael â'r Lle Parcio.

(g) Os oes arwyddion wedi eu gosod yn y Lle Parcio neu os oes marciau wedi eu rhoi ar wyneb y llawr i'r dibenion isod:

- i) nodi mynedfa neu allanfa'r Lle Parcio; neu
- ii) nodi y dylai Cerbydau sy'n defnyddio'r Lle Parcio fynd i gyfeiriad neilltuol o fewn y Lle Parcio;

ni ddylai neb yrru na pheri gyrru Cerbyd fel y byddo'n dod i mewn i'r Lle Parcio ac eithrio drwy'r fynedfa, nac yn mynd o'r Lle Parcio ac eithrio drwy'r allanfa a nodir nac mewn cyfeiriad ac eithrio'r hyn a nodir fel bo'r achos a phetai rhywun yn gwneud hynny gellid ei erlyn.

(h) Ni ddylai neb yrru Cerbyd na pheri i Gerbyd aros mewn Lle Parcio oni bai:

- i) bod Taliad Treth Cerbyd wedi'i wneud mewn perthynas â'r Cerbyd yn unol â Deddf Treth a Chofrestru Cerbyd 1994, neu
- ii) ei fod yn arddangos yn y modd rhagnodedig platiau masnach a gyhoeddwyd yn unol â Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Cofrestru a Thrwyddedu) 2002 a Deddf Trethi a Chofrestru Cerbydau 1994, neu
- iii) yn unol ag unrhyw ddiwygiad neu ail-ddeddfiad ohono sy'n ymwneud â'r uchod.

(i) Ni ddylai neb yrru Cerbyd na pheri i Gerbyd aros mewn Lle Parcio onid oes o ran defnydd y Gyrrwr ar y Cerbyd bolisi yswiriant cyfredol sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI Deddf Traffig Ffyrdd 1998 ac unrhyw ddiwygiadau neu ailddeddfiadau iddi.

- (j) Oni chafwyd caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor ni ddylai neb ddefnyddio man parcio at ddibenion arddangos na dosbarthu deunyddiau hysbysebu, hyrwyddo nac ymgyrchu a bydd hynny'n berthnasol:-

- i) i unrhyw un sy'n ymwneud a dosbarthu deunyddiau hysbysebu, hyrwyddo neu ymgyrchu mewn Lle Parcio;
- ii) i unrhyw un sy'n trefnu i rywrai eraill ddosbarthu deunyddiau hysbysebu, hyrwyddo neu ymgyrchu mewn Lle Parcio;
- iii) i unrhyw un y caiff ei nwyddau, ei fasnach, ei fusnes neu faterion eraill gyhoeddusrwydd o arddangos deunyddiau hysbysebu, hyrwyddo neu ymgyrchu o'r fath.

er ni fydd yn euog o drosedd os caiff ei nwyddau, ei fasnach, ei fusnes neu faterion eraill gyhoeddusrwydd drwy ddeunyddiau hysbysebu os gall brofi iddynt gael eu harddangos heb yn wybod iddo a heb ei gydsyniad.

- (k) Ni ddylai neb mewn Lle Parcio heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor (y gellir ei roddi ar ba bynnag delerau ac amodau ag yr ystyria eu bod yn briodol) wneud casgliad ariannol na chasglu eitemau at ddibenion elusennol na dibenion eraill.

10. Symud Cerbydau Ymaith

- (a) Yn amodol ar y ddarpariaeth sydd ynghlwm, os gadewir Cerbyd mewn Lle Parcio yn groes i unrhyw un o ddarpariaethau Erthyglau 3, 4, 5, 7, 8 a 9 y Gorchymyn hwn, caiff rhywun a awdurdodir gan y Cyngor fynd â'r Cerbyd hwnnw ymaith neu drefnu i rywun fynd ag ef ymaith o'r Lle Parcio hwnnw neu gall newid neu beri newid safle'r Cerbyd fel y bydd ei safle'n cydymffurfio â'r ddarpariaeth dan sylw.
- (b) Os bydd unrhyw un am symud Cerbyd neu newid ei safle o dan Erthygl 10(a) caiff wneud hynny drwy halio neu yrru'r Cerbyd neu drwy ryw ddull arall fel yr ystyrio'n angenrheidiol a gall gymryd mesurau parthed y Cerbyd fel bo angen iddo fedru ei symud neu newid ei safle fel bo'r achos.
- (c) Os bydd rhywun a awdurdodir gan y Cyngor yn symud Cerbyd neu'n gwneud trefniadau i symud Cerbyd o Le Parcio o dan Erthygl 10(a) bydd yn gwneud trefniadau priodol fel bo'n rhesymol angenrheidiol i gadw'r Cerbyd yn ddiogel. Ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw golledion na difrod a achosir i'r Cerbyd na'i gynnwys yn sgil ei symud mewn man parcio neu'i symud o le parcio o dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, heblaw am yr hyn a achosir drwy esgeulustod y Cyngor neu'i gontractwyr.
- (d) At ddibenion cyflawni gofynion unrhyw argyfyngau, caiff rhywun a awdurdodir gan y Cyngor neu swyddog heddlu mewn lifrai newid neu beri newid safle Cerbyd mewn Lle Parcio neu symud neu drefnu symud Cerbyd o'r Lle Parcio hwnnw.
- (e) Os symudir Cerbyd o dan ddarpariaethau Erthygl 10, caiff y Cyngor adennill costau rhesymol ei symud a'i storio oddi wrth y Gyrrwr, y Perchennog neu bwy bynnag arall a fydd yn hawlio'r Cerbyd.
- (f) Gellir gwerthu unrhyw Gerbydau a gaiff eu symud neu y gellid eu symud o'r Lle Parcio'n unol ag Erthygl 10 ac y cred y Cyngor eu bod wedi eu gadael neu'u gwaredu yn y modd a ddarperir drwy ddarpariaethau Deddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978

ac yn amodol arnynt ac yn amodol ar yr uchod gellir adennill y treuliau a'r taliadau oddi wrth bwy bynnag sy'n gyfrifol yn unol â'r diffiniad a geir ynddi.

11. Atal Cerbydau rhag symud

- (a) Os gadewir Cerbyd mewn Lle Parcio yn groes i ddarpariaethau Erthyglau 3, 4, 5, 7, 8 a 9 y Gorchymyn hwn caiff rhywun a awdurdodir i'r perwyl hwnnw gan y Cyngor wneud fel a ganlyn:
- i) gosod cyfarpar i atal Cerbyd rhag symud tra erys yn y safle y canfuwyd ef, neu
 - ii) symud y Cerbyd neu wneud trefniadau i'w symud o'r Lle Parcio i le arall a gosod cyfarpar arno yn y lle hwnnw i'w atal rhag symud yn y lle arall hwnnw.
- (b) Os gosodir cyfarpar ar Gerbyd i'w atal rhag symud o dan Erthygl 11(a) y Gorchymyn hwn, bydd y sawl sy'n gosod y cyfarpar hefyd yn rhoi Hysbysiad ar y Cerbyd:
- i) i nodi bod y cyfarpar dan sylw wedi ei osod ar y Cerbyd ac yn rhybuddio na ddylid ceisio ei yrru na'i symud mewn rhyw fodd arall nes bydd wedi ei ryddhau rhag y cyfarpar.
 - ii) i nodi'r camau y bydd angen eu cymryd i ryddhau'r Cerbyd, ac
 - iii) yn darparu pob gwybodaeth arall fel bo angen.
- (c) Ni ellir rhyddhau Cerbyd y gosodwyd cyfarpar arno i'w atal rhag symud yn unol ag Erthygl 11(a) y Gorchymyn hwn ond o dan gyfarwyddyd neu drwy gyfarwyddyd rhywun a awdurdodir i wneud hynny gan y Cyngor.
- (d) Yn amodol ar erthygl 11(b) uchod, caiff Cerbyd y gosodwyd cyfarpar arno i'w atal rhag symud yn unol ag Erthygl 11(a) y Gorchymyn hwn ei ryddhau rhag y cyfarpar hwnnw o dalu'r tâl a hynny mewn modd a bennir yn yr hysbysiad hwnnw a oedd wedi ei roi ar y Cerbyd o dan Erthygl 11(b) fel yr oedd y Cyngor wedi ei benderfynu parthed rhyddhau.
- (e) Os gosodir cyfarpar ar Gerbyd i'w atal rhag symud yn unol ag Erthygl 11(a) y Gorchymyn hwn, ni ddylai neb nad yw wedi ei awdurdodi'n briodol gan y Cyngor, neu nad yw o dan gyfarwyddyd rhywun a awdurdodwyd yn briodol gan y Cyngor, dynnu'r cyfarpar na cheisio tynnu'r cyfarpar oddi ar y Cerbyd.
- (f) Os rhoddir Hysbysiad ar Gerbyd yn unol ag Erthygl 11(b) y Gorchymyn hwn, ni ddylai neb, heblaw am Yrrwr y Cerbyd, neu gynrychiolydd awdurdodedig y Cyngor, dynnu'r hysbysiad oddi ar y Cerbyd onid yw wedi ei awdurdodi gan y Gyrrwr i wneud hynny.

12. Goruchwyllo Llefydd Parcio

Nid yw'r Cyngor yn goruchwyllo'r Llefydd Parcio a nodir yng Ngholofn 1 Atodlen 1 ac mae'r Cerbydau'n cael eu parcio yno'n gyfan gwbl ar fenter y Perchennog ac/neu'r Gyrrwr ac nid yw'r Cyngor yn derbyn dim atebolrwydd am unrhyw golledion na difrod sut bynnag yr achosir hwy nac i'r Cerbyd na'r hyn sydd ynddo nac am niwed i neb a gyfyd o ddefnyddio'r Llefydd Parcio oni fydd y colledion, y difrod neu'r niwed yn codi o ganlyniad i weithredoedd y Cyngor, ei weision neu'i asiantiaid.

13. Dilysrwydd

Os bydd Llys, Llywodraeth Cymru, y Tribiwnlys Cosbau Traffig neu Ganolfan Gorfodi'r Traffig yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu na ellir ei orfodi; yna ni fydd y datganiad hwnnw'n peri bod gweddill y Gorchymyn yn annilys.

RHODDWYD o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ceredigion y 9fed diwrnod hwn o Ebrill 2025

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**)
CYNGOR SIR CEREDIGION)
ar hyn ym mhresenoldeb:-)

9604



Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Gwasanaethau Democrataidd

ATODLEN 1

1 ENW'R LLEPARCIO	2 SAFLE Y CAIFF CERBYD AROS YNDDO	3 DOSBARTIADAU CERBYDAU A GANIATEIR	4 DIWRNODAU GWEITHREDU'R LLE PARCIO	5 ORIAU GWEITHREDU'R LLE PARCIO	6 Y CYFNOD HIRAF Y CAIFF CERBYD AROS	7 BAND O DALIADAU (GWELER ATODLEN 2)	8 BAND TRWYDDEDAU PARCIO (LLE BO'N BERTHNASOL) GWELER ATODLEN 3
LLEFYDD PARCIO ARHOSIAD BYR							
1. Sgwâr Maesglas, Aberteifi	Yn gyfan gwbl o fewn Cilfach Barcio a heb fod o fewn unrhyw gilfach sydd wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw ddosbarth o gerbydau neu berson nad yw'n gymwys i'r Cerbyd neu i'r Gyrwr.	Ceir, Beiciau Modur a Cherbydau heb fod yn fwy na 3.5 tunnell ond heb gynnwys Carafanêts, Carafanau a Threlars.	Pob dydd	24 awr Oriaau Codi Tâl: 8 am i 6 pm	Tair awr (dim dychwelyd yn ystod Oriaau Codi Tâl y diwrnod hwnnw)	1	Ddim yn berthnasol
2. Pendre, Aberteifi	Yn gyfan gwbl o fewn Cilfach Barcio a heb fod o fewn unrhyw gilfach sydd wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw ddosbarth o gerbydau neu berson nad yw'n gymwys i'r Cerbyd neu i'r Gyrwr.	Ceir, Beiciau Modur a Cherbydau heb fod yn fwy na 3.5 tunnell ond heb gynnwys Carafanêts, Carafanau a Threlars.	Pob dydd	24 awr Oriaau Codi Tâl: 8 am i 6 pm	Dwy awr (dim dychwelyd yn ystod Oriaau Codi Tâl y diwrnod hwnnw)	1	Ddim yn berthnasol
3. Stryd y Farchnad, Llanbedr Pont Steffan	Yn gyfan gwbl o fewn Cilfach Barcio a heb fod o fewn unrhyw gilfach sydd wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw ddosbarth o gerbydau neu berson nad yw'n gymwys i'r Cerbyd neu i'r Gyrwr.	Ceir, Beiciau Modur a Cherbydau heb fod yn fwy na 3.5 tunnell ond heb gynnwys Carafanêts, Carafanau a Threlars.	Pob dydd	24 awr Oriaau Codi Tâl: 8 am i 6 pm	Dwy awr (dim dychwelyd yn ystod Oriaau Codi Tâl y diwrnod hwnnw)	2	Ddim yn berthnasol
4. Canolfan Alun R Edwards, Aberystwyth	Yn gyfan gwbl o fewn Cilfach Barcio a heb fod o fewn unrhyw gilfach sydd wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw ddosbarth o gerbydau neu berson nad yw'n gymwys i'r Cerbyd neu i'r Gyrwr.	Ceir, Beiciau Modur a Cherbydau heb fod yn fwy na 3.5 tunnell ond heb gynnwys Carafanêts, Carafanau a Threlars.	Pob dydd	24 awr	Dwy Awr (Tair awr ar gyfer Cerbydau sy'n arddangos Bathodyn Person Anabl dilys)	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

1 ENW'R LLE PARCIO	2 SAFLE Y CAIFF CERBYD AROS YNDDO	3 DOSBARTHIAU CERBYDAU A GANIATEIR	4 DIWRNODAU GWEITHREDU'R LLE PARCIO	5 ORIAU GWEITHREDU'R LLE PARCIO	6 Y CYFNOD HIRAF Y CAIFF CERBYD AROS	7 BAND O DALIADAU (GWELER ATODLEN 2)	8 BAND TRWYDDEDAU PARCIO (LLE BO'N BERTHNASOL) GWELER ATODLEN 3
<u>LLEFYDD PARCIO ARHOSIAD HIR</u>							
1. Pen Isaf Ffordd y Gaer, Aberaeron	Yn gyfan gwbl o fewn Cilfach Barcio a heb fod o fewn unrhyw gilfach sydd wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw ddosbarth o gerbydau neu berson nad yw'n gymwys i'r Cerbyd neu i'r Gyrrwr.	Ceir, Beiciau Modur a Cherbydau heb fod yn fwy na 3.5 tunnell ond heb gynnwys Carafanêts, Carafanau a Threlars.	Pob dydd	24 awr Oraiau Codi Tât: 8 am i 6 pm	Dim terfyn	1	A, B
2. Traeth y Gogledd, Aberaeron	Yn gyfan gwbl o fewn Cilfach Barcio a heb fod o fewn unrhyw gilfach sydd wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw ddosbarth o gerbydau neu berson nad yw'n gymwys i'r Cerbyd neu i'r Gyrrwr.	Ceir, Beiciau Modur a Cherbydau heb fod yn fwy na 3.5 tunnell gan gynnwys Carafanêts, Carafanau a Threlars.	Pob dydd	24 awr Oraiau Codi Tât: 8 am i 6 pm	Dim terfyn	1	A, B
3. Pwll Cam, Aberaeron	Yn gyfan gwbl o fewn Cilfach Barcio a heb fod o fewn unrhyw gilfach sydd wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw ddosbarth o gerbydau neu berson nad yw'n gymwys i'r Cerbyd neu i'r Gyrrwr.	Ceir, Beiciau Modur a Cherbydau heb fod yn fwy na 3.5 tunnell ond heb gynnwys Carafanêts, Carafanau a Threlars.	Pob dydd	24 awr	Dim terfyn	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
4. Traeth y De, Aberaeron	Yn gyfan gwbl o fewn Cilfach Barcio a heb fod o fewn unrhyw gilfach sydd wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw ddosbarth o gerbydau neu berson nad yw'n gymwys i'r Cerbyd neu i'r Gyrrwr.	Ceir, Beiciau Modur a Cherbydau heb fod yn fwy na 3.5 tunnell gan gynnwys Carafanêts, Carafanau a Threlars.	Pob dydd	24 awr Oraiau Codi Tât: 8 am i 6 pm	Dim terfyn	1	A, B

1 ENW'R LLE PARCIO	2 SAFLE Y CAIFF CERBYD AROS YNDDO	3 DOSBARTHIAU CERBYDAU A GANIATEIR	4 DIWRNODAU GWEITHREDU'R LLE PARCIO	5 ORIAU GWEITHREDU'R LLE PARCIO	6 Y CYFNOD HIRAF Y CAIFF CERBYD AROS	7 BAND O DALIADAU (GWELER ATODLEN 2)	8 BAND TRWYDDEDAU PARCIO (LLE BO'N BERTHNASOL) GWELER ATODLEN 3
5. Canolfan Rheidol, Aberystwyth	Yn gyfan gwbl o fewn Cilfach Barcio a heb fod o fewn unrhyw gilfach sydd wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw ddosbarth o gerbydau neu berson nad yw'n gymwys i'r Cerbyd neu i'r Gyrrwr.	Ceir, Beiciau Modur a Cherbydau heb fod yn fwy na 3.5 tunnell ond heb gynnwys Carafanets, Carafanau a Threlars.	Pob dydd Codir tâl ar ddydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau Banc. Mae holl ddarpariaethau eraill y Gorchymyn yn berthnasol ar bob diwrnod	24 awr Oriau Codi Tâl: 8 am i 6 pm	24 awr Dwy awr mewn Cilfach Barcio dynodedig i Ymwelwyr yn unig o ddydd Llun i ddydd Gwener	1	Ddim yn berthnasol
6. Pen Isaf Coedlan y Parc, Aberystwyth	Yn gyfan gwbl o fewn Cilfach Barcio a heb fod o fewn unrhyw gilfach sydd wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw ddosbarth o gerbydau neu berson nad yw'n gymwys i'r Cerbyd neu i'r Gyrrwr.	Pob dosbarth o Gerbydau, gan gynnwys Cerbydau Trwm, Carafanét, Trelars a Charafanau.	Pob dydd	24 awr Oriau Codi Tâl: 8 am i 6 pm	Dim terfyn	1	A, B, C
7. Maesyrafon, Aberystwyth	Yn gyfan gwbl o fewn Cilfach Barcio a heb fod o fewn unrhyw gilfach sydd wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw ddosbarth o gerbydau neu berson nad yw'n gymwys i'r Cerbyd neu i'r Gyrrwr.	Ceir, Beiciau Modur a Cherbydau heb fod yn fwy na 3.5 tunnell gan gynnwys Carafanets, Carafanau a Threlars.	Pob dydd	24 awr Oriau Codi Tâl: 8 am i 6 pm	Dim terfyn	1	A, B
